

CYNGOR SIR Y FFLINT
23 HYDREF 2018

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher, 23 Hydref 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ag Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr: Sian Braun, David Cox, Ian Dunbar, Joe Johnson, Tudor Jones, Billy Mullin, Tony Sharps ac Owen Thomas

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Strydlun a Chludiant); Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Uwch Reolwr Gwasanaethau Integredig, Oedolion Arweiniol; Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu; Rheolwr Gwasanaethau Democraidd; Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democraidd; Swyddogion Gwasanaethau Democraidd a'r Cynghorydd Y Parchedig Brian Harvey ar gyfer gweddi.

Ar gyfer cofnod rhif 51

Theo Joloza – Comisiynydd Arweiniol, Matt Redmond – Dirprwy Prif Weithredwr a Tom Jenkins – Swyddog Adolygu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

41. CYFLWYNIADAU

Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) – Tai ac Asedau

Wedi cyrraedd rownd derfynol Municipal Journal Awards 2018 ar gyfer y categori Menter Tai Cymdeithasol, yn ogystal â chyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus 2018 ar gyfer y categorïau Menter Tai, Adfywio ac Adeiladau Newydd Gorau a'r Fenter Gweithio mewn Partneriaeth Cyhoeddus/Preifat Gorau.

Mynychodd y swyddogion, Mel Evans, Denise Naylor a Dawn Kent gyda Dan Poole o Wates Residential i gydnabod cyraeddiadau rhaglen uchelgeisiol y Cyngor i geisio allu cyflawni 500 o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy mawr eu

hangen dros gyfnod o bum mlynedd mewn cydweithrediad â'i bartner datblygu, Wates Residential.

Yn rhinwedd ei rôl fel Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai, dyma'r Cynghorydd Attridge yn llongyfarch y tîm. Croesawodd cydnabyddiaeth genedlaethol ar gyfer y fenter sydd hyd yma wedi darparu 144 o dai newydd sbon o ansawdd ledled y Sir i gwrdd ag anghenion y cymunedau lleol, adfywio ardaloedd a chynnig cyfleoedd cyflogaeth.

Cyngor Sir Y Fflint a Heddlu Gogledd Cymru – Canolfan Cymorth Cynnar Sir y Fflint

Dod yn ail yng Ngwobrau Partneriaeth Sy'n Canolbwyntio Ar Broblem (POP) 2018 Heddlu Gogledd Cymru

Swyddogion y Cyngor, Craig McLeod, Ann Roberts a Jane Turvey yn bresennol gydag Anna Jones o Heddlu Gogledd Cymru i ddathlu'r gydnabyddiaeth o wasanaeth aml asiantaeth wrth ddarparu cefnogaeth gynnar werthfawr i deuluoedd mewn angen.

Dyweddodd y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol am ei balchder yng nghyraeddiadau'r tîm dan arweiniad Jane Turvey. Ar ddiwedd Mawrth 2018, cyfanswm o 684 teuluoedd wedi eu cyfeirio at y Ganolfan Cymorth Cynnar i dderbyn cefnogaeth wrth ddelio ag effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Gwasanaethau Cymdeithasol – Creu lle i'w alw'n gartref: Darparu'r hyn sy'n cyfrif

Buddugol yng Ngwobrau Anrhydeddau Gofal Cymdeithasol 2018 - Canlyniadau ardderchog i bobl o bob oed drwy fuddsoddi mewn dysgu a datblygu staff - Cynnydd i Ddarparwyr; ac yn Fuddugol yng Ngwobrau Gwasanaeth Cymdeithas Rhagoriaeth Mewn Gwasanaeth Cyhoeddus 2018 - Menter Gweithio mewn Partneriaeth Cyhoeddus/Preifat Gorau, Dathlu cyflawniad ac arloesi eithriadol wrth ddarparu gwasanaeth Llywodraeth y DU.

Croesawyd swyddogion y Cyngor Dawn Holt, Nicki Kenealy, Matt Thomas a Lee Holman, ynghyd â Claire Roberts (Cartref Gofal Haulfryn), yn dilyn cydnabyddiaeth cenedlaethol y rhaglen uchelgeisiol hwn gan weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal preswyl yn y sector breifat.

Wrth dynnu sylw at lwyddiant eithriadol y prosiect, dyma'r Cynghorydd Christine Jones yn diolch i Nicki Kenealy a'r tîm Contractau a Chomisiynu, ynghyd â'r holl bartneriaid sydd wedi cydweithio ar y cynllun i wella ansawdd bywyd i bobl hŷn yn Sir y Fflint. Dywedodd bod datblygu dull arloesol i ofal yn ganolog ar y person mewn cartrefi gofal preswyl yn gwneud gymaint o wahaniaeth.

42. YMDDIHEURIADAU

Wrth nodi ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, cytunwyd y byddai cydymdeimlad mwyaf yn cael ei anfon at y Cynghorydd Owen Thomas a'i deulu ar ran y Cyngor. Hefyd estynnwn ein dymuniadau gorau at y Cynghorydd David Cox wrth iddo wella o salwch.

43. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2018.

Gofynnodd y Cynghorydd Hardcastle i gael ei gofnodi ei fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar gofnod rhif 36, y degfed paragraff i gael ei ddiwygio i adlewyrchu fod Aelodau yn cael copi o'r safonau gwaith sy'n berthnasol i swyddogion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Woolley at ddau gamgymeriad teipograffyddol ar gofnod rhif 36 a chofnod rhif 37.

Ar gofnod rhif 38 fe gytunodd y Prif Weithredwr i fynd ar ôl cais y Cynghorydd Peers am fwy o wybodaeth ar gyflog unigolyn yn cael ei gyflogi gan ysgol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Attridge bod adroddiad ar ôl-ddyledion rhent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Mentergarwch, yn ôl cais y Cynghorydd Peers.

Ar gofnod rhif 39, byddai'r Prif Weithredwr yn sicrhau bod ymateb i'r cais am ddata cymhariaeth gan yr Awdurdod Tân a'i ddsbarthu i'r holl Aelodau.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

44. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar Eitem Agenda 10, datganodd y Cynghorwyr Ted Palmer a Martin White gysylltiad personol ar y Rhybudd o Gynnig cyntaf gan eu bod yn denantiaid Cyngor.

Yn ystod trafodaeth ar yr ail Rhybudd o Gynnig, datganodd nifer o Aelodau gysylltiad personol oherwydd eu cysylltiadau i fusnesau lleol wedi'u crybwyll yn y geiriad. Cynghorodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd angen datganiad oni bai fod Aelodau yn meddwl fel arall, gan fod y Rhybudd o Gynnig ddim yn berthnasol yn arbennig i unrhyw fusnes penodol a bod y rheiny wedi'u nodi yn enghreifftiau posib o effeithiau Brexit.

45. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei ddsbarthu cyn y cyfarfod. Yn arbennig dyma'r Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorydd Kevin Hughes am dynnu ei sylw at gyn-filwr o'r Ail Ryfel Byd sydd wedi gwneud gwaith canmoladwy i gyn-filwyr dall.

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i ddiolch i'r Cadeirydd am gydnabod gwaith tîm y Cyngor wnaeth drefnu'r cynllun Llwglyd Dros Y Gwyliau cyntaf yn ystod yr haf.

Dyma'r Cynghorydd Richard Lloyd yn diolch i'r Cadeirydd ar ran Chloe-Ann Brooks ar gyfer ei hymweliad diweddar i Neuadd Y Sir er mwyn cydnabod ei gwobr.

46. DEISEBAU

Ar ran y Cynghorydd Joe Johnson, cyflwynodd y Cynghorydd Ted Palmer ddeiseb ar ran preswlydd yn gofyn am lwybr ar ffordd gefn Ffordd Pen-y-Maes i Boot End oherwydd pryderon ynglŷn â diogelwch.

Yn unol â'r broses arferol, byddai'r ddeiseb yn cael ei basio ymlaen i'r Prif Swyddog perthnasol i ymateb i'r prif gynigydd. Cytunodd y swyddogion i ddatblygu proses i adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ganlyniadau deisebau a gyflwynir bob blwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem, dyma'r Cynghorydd Carver yn codi pwynt gorchymyn o dan adran 4.10 o'r Cyfansoddiad, mewn perthynas â gohebiaeth ddiweddar yn y cyfryngau ynglŷn ag Arweinydd y Cyngor, a ystyriodd i fod yn eitem busnes brys.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod y mater eto heb gael ei ddatrys ac y byddai unrhyw drafodaeth ar y cam hwn yn gallu niweidio'r archwiliad allanol sydd heb ddod i ben eto. Felly fe gynghorodd nad oedd yn eitem brys o ran busnes ac fe gytunodd y Cadeirydd.

47. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim.

48. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

49. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU AR GOFNODION PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd dim.

50. RHYBUDD O GYNNIG

Derbyniwyd dau Rybudd o Gynnig:

- (i) Cynllun Cyfnewid Rhentu - Y Cynghorydd Andy Dunbobbin

'Hoffwn i'r Cyngor ystyried cyflwyno'r gwasanaeth sy'n adnabyddus fel Cyfnewid Rhentu sydd yn gynllun cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu gan nifer gynyddol o landlordiaid cymdeithasol fel ffordd o gefnogi tenantiaid i allu gwella eu statws credyd.

Mae wedi dod i fy sylw bod tenantiaid y Cyngor sydd yn talu rhent ar amser ddim yn cael cydnabyddiaeth am hynny ar eu hadroddiad cyfeirnod credyd. Credaf fod anghydraddoldeb yma gan fod y rheiny gyda morgais ar eu heiddo ac sy'n gwneud taliadau ar amser gyda thystiolaeth o hynny ar ei ffeil credyd.

Trwy gymryd rhan yn y gwasanaeth a gweithio gydag asiantaethau cyfeirnod credyd, byddai'r Cyngor yn gallu cynnig y cyfle i denantiaid i ddatblygu hanes credyd cadarnhaol, yn ogystal â chael eu gwobrwyo am dalu eu rhent ar amser - Credaf hefyd ei fod yn golygu buddion sylweddol ar gyfer pethau fel gwneud cais am nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol cyfrifol a fforddiadwy, siopa ar-lein neu hyd yn oed helpu tenant sydd eisiau gwneud cais am forgais fel rhan o bontio i'r cam o brynu cartref eu hunain.

Dyma gynllun a fyddai'n helpu i gefnogi tenantiaid y Cyngor ac fel Cyngor blaengar, gofynnaf i chi ystyried a gweithredu'r cynllun?

Fel Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai, dyma'r Cynghorydd Attridge yn diolch i'r Cadeirydd Dunbobbín am ei Rybudd o Gynnig. Dywedodd bod y mecanwaith ar gyfer landlordiaid tai cymdeithasol i gytuno i'r cynllun yn helpu tenantiaid i gael mynediad i gredyd fforddiadwy ac i gynnig buddion ariannol hirdymor. Byddai'n annog tenantiaid i gadw at eu taliadau rhent a'u talu ar amser yn ogystal â chefnogi strategaethau'r Cyngor. Gofynnodd bod y Cabinet yn ystyried adroddiad ar ddichonoldeb gweithredu'r cynllun yn Sir y Fflint gyda gwybodaeth ar sefydlu costau ac amserlenni.

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey.

Cynigodd y Cynghorydd Peers newid bychan i'r geiriad yn nhrydydd paragraff y Cynnig gan newid y gair 'gwobrwyo' i 'cydnabod' fel ei fod yn fwy eglur. Mynegodd y Cynghorydd Dunbobbín ei fod yn fodlon gyda'r diwygiad. Wrth fynd i'r bleidlais, pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid y Rhybudd o Gynnig.

Meddai'r Prif Weithredwr ei fod ef a'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i'll dau yn croesawu'r cynllun mewn egwyddor a byddai adroddiad i'r Cabinet yn cael ei flaenoriaethu.

(ii) Refferendwm Brexit – Y Cynghorydd Kevin Hughes

Ar 23 Mehefin 2016 pleidleisiodd pobl y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd trwy Refferendwm Brexit. O'r pleidleisiau, pleidleisiodd 51.8% i adael gyda 48.11% yn pleidleisio i aros. Yn Sir y Fflint pleidleisiodd 56.4% i adael gyda 43.6% yn pleidleisio i aros. Galwodd Llywodraeth San Steffan ar Erthygl 50 ar Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd gyda'r Prif Weinidog yn arwyddo llythyr ar 28 Mawrth 2017. Cafodd y llythyr ei anfon y diwrnod canlynol gan Lysgennad Prydeinig yr Undeb Ewropeaidd at Lywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk. Ers hynny mae trafodaeth barhaus heb unrhyw arwydd o gytundeb y gellir cytuno arno yn y Senedd neu un sy'n dderbyniol i bobl Prydain.

Yn y cyfamser mae Prif Swyddog Gweithredol Airbus wedi rhybuddio y gallai'r cwmni adael y DU os bydd yn gadael y farchnad sengl Ewropeaidd a'r undeb tollau heb gytundeb trosiannol. Byddai hynny'n cael effaith distrywiol ar weithwyr di-rif yn Sir y Fflint sydd wedi'u cyflogi gan Airbus a miloedd o gwmnïau llai sydd yn ei gyflenwi â nwyddau, offer a gwasanaethau.

Yn ogystal, mae Is-lywydd Gweithredol Toyota, Didier Leroy, wedi dweud y gallai ansicrwydd gyda Brexit beryglu buddsoddiad y cwmni yn y dyfodol yn y DU a

fyddai unwaith eto'n cael effaith negyddol ar weithwyr Sir y Fflint a ffyniant parhaus y sir.

Mae Hazel Wright, uwch swyddog polisi Undeb Ffermwyr Cymru yn cynghori ffermwyr Cymru, gan gynnwys y rheiny sy'n ffermio yn Sir y Fflint bod Cynllun Y Taliad Sylfaenol o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn dod i ben ar ôl Brexit ac yn symud i gynllun Llywodraeth Cymru yn 2021 yn seiliedig ar ffactorau amgylcheddol.

Byddai hynny'n golygu y bydd ffermwyr Sir y Fflint yn cael eu trin yn wahanol i'w cystadleuwyr yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban, Lloegr a gweddill Ewrop gan adael llawer yn ofni am eu bywoliaeth ac ni fydd eu ffermydd yn ariannol hyfyw mwyach.

Nawr ein bod yn gwybod y gwir ffeithiau a chanlyniadau Brexit a'i effaith tebygol ar economi, swyddi a ffyniant Sir y Fflint ynghyd â gallu San Steffan i drafod cytundeb addas efallai ei bod yn amser i roi ail gyfle i'r etholaeth ddweud ei dweud ar ganlyniad terfynol Brexit? Byddai'n gwbl annheg ac yn sarhad i ddemocratiaeth i beidio â rhoi'r cyfle i bobl Prydain i ddweud eu barn ar y cytundeb terfynol a ninnau bellach yn gwybod y canlyniadau'n llawn.

Mae'r cyngor felly yn galw ar Lywodraeth San Steffan i roi'r cyfle i'r cyhoedd bleidleisio ar y cytundeb Brexit terfynol a fydd yn gweld y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. A dylai'r bleidlais honno gynnwys tair elfen:

- 1) I dderbyn y cytundeb terfynol a gytunwyd arni gan y Llywodraeth.
- 2) I adael yr Undeb Ewropeaidd, ei undeb tollau a'i farchnad sengl heb gytundeb a gytunwyd arni.
- 3) I aros yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd, ei undeb tollau a'i farchnad sengl.'

Wrth gyflwyno ei Rybudd o Gynnig, dywedodd y Cynghorydd Hughes mai nod ei Rybudd o Gynnig oedd peidio creu trafodaeth ar sut y mae unigolion yn pleidleisio nac i'w hannog i newid eu meddyliau. Yn hytrach mae'r Cynnig yn cymryd i ystyriaeth y sefyllfa bresennol ar p'un ai fod y cytundeb yn rhywbeth y mae pobl ei heisiau a'r goblygiadau i genedlaethau iau yn Sir y Fflint.

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Bithell oedd o'r farn bod y refferendwm UE yn achos cymhleth na ellir ei ddatrys drwy ateb 'ie' neu 'na'. Cyfeiriodd at y problemau fel mewnfudo, swyddi a thwristiaeth na wyddid amdanynt yn ystod refferendwm yr UE ac amlygwyd pryderon am y diwydiant a'r economi leol.

Siaradodd y Cynghorydd Legg o blaid y Cynnig gan dynnu sylw at y ddyletswydd ar unigolion i ddefnyddio eu hawl i bleidleisio. Siaradodd y Cynghorydd Phillips o blaid hefyd. Cafodd ei ddiwygiad arfaethedig i gael gwared ar y tri dewis o fewn y Cynnig ei wrthod gan y Cynghorydd Hughes. Tynnodd y Cynghorydd Phillips ei ddiwygiad yn ôl. Dywedodd y Prif Weithredwr mai cyfrifoldeb y Comisiwn Etholiadol oedd gerio cwestiwn ar gyfer refferendwm.

Siaradodd y Cynghorydd Carver yn erbyn y Cynnig gan ei fod yn credu bob pobl wedi deall yr hyn yr oedd yn ei olygu wrth bleidleisio yn y refferendwm cyntaf. Mynegodd y Cynghorydd Woolley ei fod yntau yn erbyn y Cynnig ac fe

gwestiynodd y Cyngorydd Rita Johnson p'un ai fyddai llais y Cyngor yn cael ei glywed.

Dywedodd y Cyngorydd Peers y dylai telerau'r cytundeb terfynol ar Brexit fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyn derbyn neu wrthod pleidlais gyhoeddus.

Safbwynt tebyg yn cael ei rannu gan y Cyngorydd Butler a oedd yn teimlo fod achosion sefydliadol o'r fath bwys yn cael ei benderfynu ar bleidleisiau etholiadol o leiafswm o 70%.

Wrth groesawu'r ddadl, dywedodd y Cyngorydd Heesom nad oedd yn gallu cefnogi'r Cynnig gan ei fod yn bwysig cydnabod ewyllys y bobl a bleidleisiodd.

Dywedodd y Cyngorydd Ellis nad oedd gan Aelodau fandad trigolion Sir y Fflint i newid eu pleidlais.

Meddai'r Cyngorydd Aaron Shotton fod Aelodau o'r blaid Lafur yn cymryd pleidlais rydd ar yr achos hwn. Tra'n cydnabod egwyddorion y Cynnig, teimlai fod gwneud cynrychiolaethau o'r fath ar y cam tyngedfennol hwn o drafod yn beryglus.

Mynegodd y Cyngorydd Paul Johnson, oedd wedi cymryd rhan yng ngorymdaith Pleidlais Pobl ar refferendwm Brexit, ei fod o blaid y Cynnig.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Paul Shotton at gostau ariannol Brexit ac roedd y Cyngorydd Ian Roberts o blaid y pleidlais a'r gwirionedd o adael Brexit.

O'i roi i bleidlais, collwyd y Cynnig.

Meddai'r Prif Weithredwr er nad oedd gan y Cyngor farn ffurfiol ar Brexit, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar baratoi ar gyfer y risgiau o newid i gael ei adrodd yn y dyfodol i gyfarfod o'r Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Dosbarthodd daflen fel papur cefndirol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Dunbobbin, fel y diwygiwyd gan y Cyngorydd Peers yn cael ei gefnogi. Bod y trydydd paragraff yn darllen fel hyn: 'Trwy gymryd rhan yn y gwasanaeth a gweithio gydag asiantaethau cyfeirnod credyd, byddai'r Cyngor yn gallu cynnig y cyfle i denantiaid i ddatblygu hanes credyd cadarnhaol, yn ogystal â chael eu cydnabod am dalu eu rhent ar amser - Credaf hefyd ei fod yn golygu buddion sylweddol ar gyfer pethau fel gwneud cais am nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol cyfrifol a fforddiadwy, siopa ar-lein neu hyd yn oed helpu tenant sydd eisiau gwneud cais am forgais fel rhan o bontio i'r cam o brynu cartref eu hunain.' a
- (b) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Hughes ar refferendwm Brexit yn cael ei wrthod.

Yn dilyn yr eitem fe ofynnodd y Cadeirydd am egwyl fer.

51. CYFLWYNIAD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Theo Joloza (Prif Gomisiynydd), Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr) a Tom Jenkins (Swyddog Adolygu) o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'u gwahodd nhw i roi cyflwyniad i Adolygiad Etholiadol Sir y Fflint. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Pwy ydym ni?
- Diben ein cyflwyniad
- Deddfwriaeth
- Cwmpas yr Adolygiad
- Meini prawf statudol
- Polisi maint y Cyngor – diffiniedig - cymwysedig
- Blociau adeiladu ward Etholiadol
- Aelod sengl/Aml aelod
- Yr hyn y byddwn yn ei ystyried
- Meysydd Pryder
- Yr hyn na fydd yn cael ei ystyried
- Cynrychiolaethau effeithiol
- Lle all y Cyngor helpu?
- Amserlen

Newidiadau yn Llywodraeth Cymru (LIC) yn golygu bod dechrau'r rhaglen 10 mlynedd o adolygiadau gan y Comisiwn Ffiniau wedi cael ei ohirio tan Ionawr 2017. Angen adrodd ar yr argymhellion a wneir o'r adolygiad presennol o drefniadau etholiadau i LIC erbyn Gwanwyn 2021 er mwyn caniatáu digon o amser i'r newidiadau wardiau gael eu gweithredu cyn etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022. Dosbarthwyd copïau i'r Aelodau o'r ddogfen Polisi ac Arferion a ailgyhoeddwyd yn adlewyrchu'r rhaglen 5 mlynedd byrrach.

Nod yr adolygiad oedd cynnig patrwm o wardiau etholiadol ar gyfer ardal gyfan y cyngor ac nid lle'r oedd lefelau o anghydraddoldeb etholiadol yn unig, er bod rhai ardaloedd o bosib ddim angen unrhyw newidiadau. Rhoddwyd eglurhad manwl ar y gwahanol elfennau i'r Comisiwn ei ystyried wrth greu'r trefniadau newydd. O dan Bolisi Maint y Cyngor, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael ei roi yn y trydydd o bedwar categori o gyngor sydd wedi cael ei ddylunio i harmoneiddio'r nifer o boblogaeth fesul Aelod. Ar ôl gweithredu'r cyfyngiadau hanfodol, adroddwyd bod yr adolygiad o Sir Y Fflint yn anelu am 63 Aelodau, gan nodi fod amrywiant bychan o bosib yn cael ei ystyried os yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth. Er mai dewis y Comisiwn oedd ar gyfer wardiau Aelodau unigol, byddai ystyriaeth yn cael ei roi i gynrychiolaethau ar gyfer hyd at dri wardiau aelodau. Enghreifftiau o gysylltiadau cymunedol wedi'u rhannu y gellir eu darparu ymysg tystiolaeth gefnogol.

Ardaloedd cymunedol a wardiau presennol wedi cael eu defnyddio fel blociau adeiladu ar gyfer pob ward etholiadol. Mae'r Comisiwn wedi cael pwerau i wneud newidiadau i'r ffiniau hynny o ganlyniad i greu wardiau etholiadol, fodd bynnag byddai hynny ond yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft lle mae cynigion penodol yn cael eu cefnogi gan Aelodau lleol a'r cyngor tref/cymuned perthnasol.

Ar yr amserlen ar gyfer yr adolygiad roedd y Cyngor yn cael ei annog i ddefnyddio gwybodaeth leol i gyflwyno cynllun priodol ar gyfnod cynnar o fewn rheolau'r ddeddfwriaeth a pholisïau, i helpu'r Comisiwn i adnabod ateb priodol i drefniadau newydd.

Diolchodd y Prif Weithredwr y tîm Comisiwn am y cyflwyniad a fyddai hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Sirol y noson honno. Dyma fo'n atgoffa bod adolygiad o ffiniau ward cymunedol wedi cael ei gwblhau yn 2014 a bod yna bosibilrwydd i'w adolygu eto fel rhan o'r adolygiad hwn. Wrth gydnabod y cymhlethdodau ynghlwm, fe siaradodd am yr angen i ddatblygu'r dull orau o alluogi swyddogion ac Aelodau i gydweithio i ddatblygu cynllun ymarferol yn blaenoriaethu'r ardaloedd hynny o'r map gyda'r amrywiaethau mwyaf o'r cyfartaledd Sir arfaethedig.

Mynegodd y Cynghorydd Kevin Hughes ei bryderon bod y golled bosib o saith Aelod yn gallu arwain at ateb anghytwys. Dywedwyd wrtho bod y Comisiwn ond yn gallu gweithio o fewn parametrau'r ddeddfwriaeth.

Yn ymateb i'r sylwadau gan y Cynghorydd Bithell am ffiniau 'sydd wedi'u creu gan ddyn', eglurwyd y byddai'r adolygiad yn cymryd y rhwydwaith ffordd bresennol a bod pob ward yn cael ei ystyried yn ôl teilyngdod ei hun.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill os oedd y ffigurau ar gyfer Sir y Flint yn cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn sgîl y Cynllun Datblygu Lleol. Eglurwyd bod y ddeddfwriaeth yn bennaf angen cydraddoldeb etholiadol ar y nifer presennol o etholwyr fesul Aelod yn yr ardal. Mae ffactorau eilaidd fel ffigurau amcanestyniad dros bum mlynedd (i'w rhannu gydag Aelodau) yn gallu ffurfio rhan o gynigion y Cyngor ac efallai yn cael eu hystyried o fewn hyblygrwydd rhesymol.

Wrth ymateb i'r sylwadau gan Gynghorwyr Palmer a Banks, eglurwyd bod yr amrywiaethau o ran llwyth gwaith Aelodau ac ystadegau twristiaeth ddim yn rhan o'r ystyriaethau.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Paul Johnson, rhoddwyd eglurhad ar y cyfrifiadau a oedd yn penderfynu bod gan Sir y Flint ormod o gynrychiolaeth ar hyn o bryd.

Gofynnwyd am fwy o eglurhad gan y Cynghorydd Peers ar gywirdeb y ffigurau a sut y byddai amcanestyniadau pum mlynedd yn cael eu defnyddio. Rhoddwyd enghraifft lle byddai dewis yn cael ei gyflwyno i ail-lunio ffin yn defnyddio tystiolaeth o ddatblygiadau'r dyfodol. Byddai unrhyw ardaloedd o dwf sylweddol yn y dyfodol yn cael sylw trwy adolygiadau'r dyfodol fel rhan o raglen dreigl.

Awgrymodd y Cynghorydd Carver y posibilrwydd o newid ffiniau ward i gyflawni'r wardiau yn rhai aelodau unigol i gyd. Eglurwyd mai penderfyniad y Cyngor oedd i gyflwyno tystiolaeth neu beidio i gefnogi'r dull hwn. Gellir hefyd gwneud cynrychiolaethau am y pellteroedd sy'n cael eu teithio gan Aelodau i ymrwymo â'u hetholaeth, fel y mynegir gan y Cynghorydd Ray Hughes.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am y cyflwyniad manwl ac am ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y gwaith yn dechrau ar ddatblygu proses i alluogi'r ymrwymiad mwyaf ar y cynllun.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r cyflwyniad.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, fe symudodd y Cadeirydd y Rheolau Sefydlogi ymestyn y cyfarfod tu hwnt i 5.00 p.m.

52. CANLYNIAD ADOLYGIAD ETHOLAETHAU SENEDDOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, er gwybodaeth, sydd yn gosod yr argymhellion yng Nghomisiwn Ffiniau i Gymru ar yr Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018.

Yr argymhelliad i nodi bod yr adroddiad wedi symud gan y Cynghorydd Butler a'i eilio yn briodol. Wrth gymryd y bleidlais, derbyniwyd y bleidlais.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

53. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i ardystio Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18 cyn ei gyhoeddi erbyn y dyddiau cau. Dyma adroddiad statudol yn rhoi trosolwg ôl-weithredol o berfformiad yn cyflawni'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2017/18.

Dosbarthwyd sleidiau'r cyflwyniad fel papur cyfeirio a thrafodwyd y canlynol:

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Cynllun y Cyngor 2017-23
- Fformat a chynnwys
- Trosolwg Ar Berfformiad 2017/18
- Trosolwg o'r Cynnydd
- Uchafbwyntiau
- Meysydd i'w gwella
- Trosolwg ar Berfformiad – Cynllun y Cyngor
- Trosolwg o'r Crynodeb
- Y Camau Nesaf

Dywedodd y Cynghorydd Attridge bod y wybodaeth wedi cael ei rannu gydag Aelodau Trosolwg a Chraffu. Symudodd yr argymhelliad yn yr adroddiad gyda'r Cynghorydd Butler yn eilio hynny.

Roedd y Cynghorydd Peers eisiau codi nifer o ymholiadau gyda Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod. Ar gynydd yn erbyn risgiau, adroddwyd bod 69.6% o'r risgiau yn aros yr un fath yn ystod y cyfnod ac wedi'u nodi yn y Gofrestr Risg (Atodiad 2 o'r adroddiad).

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18 i'w gyhoeddi.

54. BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD A'R DDOGFFEN GYNNIG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ddatblygu cynnig Bargaen Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn dilyn mabwysiadu'r cam cyntaf o Gytundeb Llywodraethu ym mis Mehefin. Ar y cam hwn, roedd disgwyl i'r holl bartneriaid rhanbarthol i ardystio'r Ddogfen Gynnig (yn gosod rhaglenni a phrosiectau i'w hystyried i'w cynnwys yn y Fargaen Twf) i roi mandad i'w arweinwyr priodol i'w cynnwys mewn Cytundeb Penawdau'r Telerau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn yr Hydref.

Mae datblygu'r strategaeth wedi cynnwys gwaith cymhleth ar draws y rhanbarth, gyda'r nod o gael mynediad i gronfeydd cyfalaf o'r ddwy Lywodraeth i elwa twf busnes a chyflogaeth. Byddai'r ail Gytundeb Llywodraethu i'w gael yn ddiweddarach yn pennu'r risgiau a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y bartneriaeth ar y cyd ac i bartneriaid unigol.

Fel Aelod Cabinet dros Ddatblygiad Economaidd, fe dalodd y Cynghorydd Butler deyrnged i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd am eu rhan mewn cyflawni cytundeb rhanbarthol yn amserol. Dywedodd bod strategaeth am dwf economaidd yn rhoi llais rhanbarthol i gynghorau i sicrhau fod Llywodraeth Cymru (LIC) yn cyflawni ei addewidion.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Aaron Shotton bod cynnydd hyd yma o ganlyniad i gydweithio i ddatblygu Bargaen Twf i gwrdd ag anghenion y rhanbarth. Yn galw am gefnogaeth Aelodau fe ddywedodd am ddisgwyliadau busnesau lleol ar gyfer y Fargaen Twf rhanbarthol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at drafodaeth yng nghyfarfod mis Mehefin yn nodi bod y Ddogfen Gynnig yn cael ei rannu ym mis Medi a gweithdy posib i gyfeirio at nifer y materion heb eu casglu. Cynigodd bod yr adroddiad yn cael ei ohirio i ganiatáu amser i ystyried y materion mewn manylder. Cafodd hynny ei eilio gan y Cynghorydd Heesom wnaeth siarad am oblygiadau yn ymwneud a'r Bargaen Twf ar yr isadeiledd priffyrdd.

Wrth ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y ddogfen wedi cael ei ddarparu yn unol â'r amserlen a adroddwyd ar gyfer Medi/Hydref fel y gwelir yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf. Eglurodd nad oedd ymrwymadau ariannol neu gytundeb yn cael eu gwneud ar y cyfnod hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones ei fod yn cefnogi'r gohiriad oherwydd ei bryderon am fuddion teg ar draws y Sir a ddylai yn ei farn ef dderbyn sylw. Dywedodd bod y Cynllun Glannau Dyfrdwy yn hysbysu'r bwrdd economaidd ac y dylai fod yn Gynllun Sir y Fflint.

Ar y bleidlais, cafodd y cynnig i ohirio'r adroddiad ei wrthod.

Wrth symud yr argymhellion yn yr adroddiad fe ddywedodd y Cyngorydd Aaron Shotton bod y penderfyniad yn hanfodol er mwyn cyflawni cytundeb rhanbarthol i symud i'r cam nesaf o drafodaethau. Cafodd hynny ei eilio gan y Cyngorydd Attridge.

Wrth gymryd y bleidlais, derbyniwyd y bleidlais.

Cytunodd y Prif Weithredwr i drefnu gweithdy mewnol er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r Aelodau ymhen amser.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r *Ddogfen Gynnig* fel (1) sail strategaeth rhanbarthol mwy hirdymor ar gyfer twf economaidd a (2) sail ranbarthol ar gyfer y rhaglenni a phrosiectau blaenoriaeth y bydd cynnwys Bargen Dwf yn cael ei dynnu ohonynt yn y cam Cytundeb Penawdau'r Telerau gyda Llywodraethau. Nid yw mabwysiadu yn ymrwmo'r Cyngor i unrhyw fuddsoddiad ariannol ei hun ar y cam hwn ac mae'n amodol ar risgiau a manteision ariannol y Fargen Dwf terfynol yn cael eu nodi mewn manylder, i'w hystyried yn llawn, pan gaiff y Fargen derfynol ei chyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yn ddiweddarach; a
- (b) Bod y Cyngor yn nodi fod yr Arweinydd yn cael ei awdurdodi gan y Bwrdd Gweithredol/Cabinet i ymrwmo'r Cyngor i lunio Penawdau'r Telerau gyda Llywodraethau ochr yn ochr â'r arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru gyda'r *Ddogfen Gynnig* yn nodi'r paramedrau ar gyfer cytundeb penawdau'r telerau.

55. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd dau aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 5.45pm)

.....
Y Cadeirydd